# Cloch Dewi

Cyf 6: Rhif 4

Gorffennaf 2020




## Yn y rhifyn hwn

| | Tud |
|---|---|
| Datgysylltu eglwys Loegr yng Nghymru – y canmlwyddiant<br>Y Parch Hywel J Davies | 2 |
| Saith Sant [Rhan 1]<br>Gwynn Matthews | 3 |
| Yr Hen Ficer a'r Chwarren 1625 Y Ficer | 4 / 5 |
| Cyfnod y Cloi<br>Gweithgareddau pobl EDS | 6 / 7 |
| Colofn y Ficer | 8 / 9 |
| Geiriau o ddiolch<br>Margaret le Grice | 10 |
| Materion ariannol Rhys Jones | |
| Ordeinio Siôn Brynach | 11 |
| Statws Arbennig i'r Organ<br>Marian Fairclough | |
| Arglwydd dysg i'n weddïo | 12 |

**Eglwys Dewi Sant**
**Caerdydd**

**eglwysdewisant.org.uk**

EglwysDewiSant

@eglwysdewisant

**Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:**

**Ficer**: Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd

Ffôn: 029 2056 6001

E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com

**Offeiriad:** Y Parchedig Rhian Linecar

Ffôn: 01446 760007

E-bost: rlinecar@gmail.com

# Datgysylltu eglwys Loegr yng Nghymru – y canmlwyddiant

Y Parch Hywel J Davies

Pan ddathlodd Eglwys Iwerddon ei chanmlwyddiant a hanner yn Nhachwedd 2019, fe wnaed hynny gydag urddas ac yn llygaid y cyhoedd. Anffawd yr Eglwys yng Nghymru yw bod y pandemig Corona wedi'i rhwystro rhag dilyn yr un trywydd wrth ddathlu ei chanmlwyddiant hithau eleni.

Mae'n werth nodi, serch hynny, na fu'r Eglwys yn hwyrfrydig wrth baratoi at ddathlu ei phen-blwydd. Bu'n fwriad croesawu Justin Welby, Archesgob Caergaint, i Gymru fis Ebrill diwethaf; ac ar Ddydd Sul 7fed Mehefin bwriadwyd i'r chwe Chadeirlan yng Nghymru gynnal gwasanaethau arbennig i nodi'r canmlwyddiant. Petai'r Eisteddfod Genedlaethol wedi gallu mynd rhagddi yn Nhregaron eleni, byddai'r cyfle wedi codi i drafod sut, pam a chyda pha ganlyniadau y datgysylltwyd yr Eglwys, union ganrif yn ôl. Yna, gellir nodi hefyd y bwriad i sefydlu gŵyl gelfyddydol fyddai'n gwobrwyo artistiaid yn gweithio mewn gwahanol feysydd dyngarol. Cael eu gohirio oedd ffawd pob un o'r digwyddiadau arfaethedig yma.

Bu'n bosibl i eraill fynd yn eu blaenau - megis y gwaith o gynhyrchu nifer o ffilmiau dathlu, sydd i'w gwylio ar *'You Tube',* gan gynnwys fersiwn ddigidol o seremoni gorseddu Archesgob cyntaf Cymru ar Fehefin 1af 1920. Felly hefyd Gronfa Apêl y Dathlu sy'n anelu at godi £100,000 er budd dwy elusen - Cyfiawnder Cartrefedd Cymru a Chymorth Cristnogol, y naill yn brwydro yn erbyn digartrefedd a'r llall yn canolbwyntio ar anghenion pobl De'r Swdan. Gynharach eleni, yn ogystal, cyhoeddwyd llyfr newydd, dan olygyddiaeth Norman Doe, sef '*A New History of the Church in Wales'* - gyda phenodau gan arbenigwyr clerigol a lleyg. Yn olaf, efallai i rai glywed y rhaglen Saesneg '*All Things Considered'* ar Radio Wales nôl ym mis Ionawr eleni pan fu holl helynt datgysylltu'r Eglwys dan sylw'r Archesgob John Davies, yr Athro Densil Morgan ac eraill.

Eithr, i fwyafrif pobl Cymru fydd dathliadau'r Eglwys yng Nghymru eleni yn mennu dim arnynt. Peth hynod yw hynny, achos yn ei dydd bu'r ddadl am ddatgysylltu'r Eglwys yn un ffyrnig a thymhestlog. Yn wir, gellir dadlau bod y digofaint a achoswyd ymhlith Anghydffurfwyr ac Eglwyswyr, fel ei gilydd, yn ddyfnach a mwy parhaol ei ddylanwad na dim a brofir yn gyffredinol o ganlyniad i Brexit.

Bu mater datgysylltu'r Eglwys yn destun llosg ers canol y 19eg ganrif. Er 1870 cafwyd cynifer â phump cynnig i'r perwyl hynny ar lawr Tŷ'r Cyffredin - yn 1870, 1886, 1889, 1891 ac yn 1892. Dilynwyd y rhain gan bedwar Mesur Datgysylltu - yn Ebrill 1894, Mawrth 1895, Ebrill 1909 ac yn Ebrill 1912. Hyd yn oed yn achos y Mesur olaf, y gohiriwyd ei drafodaeth gan Gomisiwn Brenhinol 1906-1910, profwyd ymosodiadau arno o bob tu, nes taw trwy drwch blewyn yn unig y llwyddodd gyrraedd y llyfr statud yn 1914. Yna gohiriwyd gweithredu'r Ddeddf newydd nes i'r Rhyfel Byd Cyntaf ddod i ben. Dim ond ym Mehefin 1920 y gwelwyd sefydlu talaith newydd, annibynnol yng Nghymru, gyda'i Harchesgob ei hun - sef A G Edwards, Esgob Llanelwy er 1889.

Wrth edrych dros ein hysgwydd, fel petai, mae dau beth yn arbennig yn ein taro'n annisgwyl. Yn gyntaf, bod cymaint o amser ac egni wedi ei dreulio ar fater byddai'r mwyafrif heddiw yn ystyried yn fympwyol ac amherthnasol. Pryd diwethaf y cynhyrfwyd y farn gyhoeddus i'r un graddau gan gwestiwn o bwys crefyddol? Yn ail, bod rhywbeth a fu'n ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru dros gymaint o amser wedi derbyn y fath sylw cwta a ffuantus gan San Steffan. Nid tan helynt Tryweryn, 1965, y gwelwyd San Steffan yn arddel y fath agwedd ddihyd a thrahaus tuag at gynrychiolaeth ddemocrataidd Gymreig.

Hynod hefyd, yn ôl rhai, fu digwyddiadau'r dydd arbennig hwnnw, sef Mehefin 1af, 1920, wrth i'r Archesgob Edwards a'r Prif Weinidog, David Lloyd George, gyd-ymddwyn fel pe baent yn gyfeillion bore oes. Yn wir, y bore hwnnw, roedd y Bedyddiwr Caeth-gymunol o Gricieth wedi derbyn y Sacrament o ddwylo'r Archesgob - er mawr ddig y sawl oedd yn gyfarwydd â rhuddellau'r Llyfr Gweddi Gyffredin. (Soniai`r 'Church Times' am *"a breach of discipline"* ac am "*an astonishing action".*) Y gwir amdani yw bod y ddau ddyn yma am y pegwn a'i gilydd parthed datgysylltu - er iddynt ddod yn ffrindiau agos maes o law - ac yn cynrychioli `r holl ddrwgdybiaeth y naill ochr tuag at y llall. Fe ddywedir, er enghraifft, i ryw Anghydffurfiwr ddisgrifio'r Archesgob fel *"the worst liar in Wales";* yna, heb bwyso gwir ergyd ei eiriau, ychwanegodd *"but we have a man in David Lloyd George who is more than a match for him*"!

# Saith Sant [Rhan 1]

Gwynn Matthews

Ym mherfeddion cefn gwlad gogledd Llydaw mae lle bach o'r enw Seizh Sant, sef Saith Sant. Mae dau neu dri o dai yno, cwrt boules ac eglwys fechan. Mae'r eglwys wedi ei chysegru i saith sant, ond nid saint Celtaidd mohonynt. Eu henwau yw Ioan, Maximilian, Malchus, Marcian, Denis, Serapon a Cwstenin. Adweinir hwy fel 'Saith Cysgadur Effesus'.

Dyma'n fras yw'r stori amdanynt. Yn ystod teyrnasiad yr ymerawdr Rhufeinig Decius (249-251) bu erledigaeth ffyrnig ar Gristnogion. Yn hytrach nag addoli'r duwiau Rhufeinig, penderfynodd saith Cristion ifanc o Effesus gilio i ogof ar Fynydd Celion. Pan glywodd Decius amdanynt, gorchmynodd adeiladwyr i gau mynedfa'r ogof pan oedd y saith yn cysgu, a'u claddu'n fyw. Anghofiwyd amdanynt.



*Tu mewn yr eglwys (Saif cerfluniau o'r saith sant gyda Mair a'r Plentyn Iesu tu cefn i'r allor. Sylwer ar y grisiau ar ochr dde'r llun.)*

Dwy ganrif yn ddiweddarach, yn ystod teyrnasiad yr Ymerawdr Theodosius (402-450), a Christnogaeth erbyn hynny yn grefydd swyddogol yr Ymerodraeth Rufeinig, yr oedd bugail ar Fynydd Celion yn chwilio am loches i'w braidd. Dechreuodd grafu o gwmpas rhai o'r cerrig a ddefnyddiwyd i gau'r ogof, a darganfod eu bod yn gorchuddio lloches hwylus na wyddai amdani cyn hynny.

Pan lifodd y goleuni i mewn i'r ogof, deffrodd y saith llanc, gan feddwl mai un noson yn unig y buont yn cysgu. Aeth un ohonynt yn llechwraidd i'r ddinas i brynu bwyd, a chael ei syfrdanu o weld arwydd y Groes ar nifer o adeiladau. Yr oedd y siopwyr yn synnu ei fod yn cynnig talu gydag arian cyfnod Decius. Daeth nifer o ddinasyddion yn ôl gyda'r llanc a rhyfeddu at stori wyrthiol y saith. Bu farw'r llanciau yn gorfoleddu a moli Duw, ac fe'u hadnabuwyd o hynny ymlaen fel 'Saith Cysgadur Effesus'.



*Lawr yr asgell ddeheuol, sef capan y gromlech.*

I ddeall eu cysylltiad gydag'r eglwys fach hon yn Llydaw, mae angen craffu ar bensaernïaeth yr eglwys. Mae'r adeilad ar ffurf croes, ond mae'r asgell ogleddol a'r asgell ddeheuol yn uwch o lawer na llawr corff yr eglwys. Mewn gwirionedd maent fel dau lwyfan o bobtu'r corff. Bydd côr yr eglwys yn defnyddio un ohonynt. Mae rhywbeth arbennig iawn am lawr carreg yr asgell ddeheuol – capan cromlech ydyw. Mae'r eglwys fach yn ymgorffori cromlech gyfan! Tu allan i'r eglwys, mae mynedfa i mewn i'r gromlech, ac o fynd i mewn iddi, mae'n union fel ogof. A dyna'r cysylltiad gyda Saith Cysgadur Effesus.

*Y fynedfa i mewn i'r gromlech o du allan yr eglwys.*



***Cewch ddarllen ail ran ysgrif Gwynn yn y gyfrol nesaf o Gloch Dewi***

# Yr Hen Ficer a'r Chwarren 1625



Yn ystod y Cloi Mawr, yr wyf wedi bod yn treulio tipyn o amser yn pori trwy Cannwyll y Cymry gan yr Hen Ficer, y Parchedig Rhys Prichard (1579 – 1644), ficer Llanymddyfri. Dyma ei gyfrol o benillion a gyhoeddwyd yn 1672 ac a fu'n hynod adnabyddus a dylanwadol trwy Gymru benbaladr a thu hwnt tan yn lled ddiweddar.

Fe'i cyfieithwyd i'r Saesneg o dan y teitl "The Welshman's Candle or The Divine Poems of Mr Rees Prichard". Bellach, mae rhan helaeth o'i waith wedi mynd i ebargofiant ac i'r mwyafrif, yr unig gerdd o'i waith sy'n dal yn weddol adnabyddus yw "Awn i Fethlem pawb dan ganu". Yn wir, yr Hen Ficer oedd un o'r rhai cyntaf i gyfansoddi carolau ac emynau cynulleidfaol yn Gymraeg i'w canu yn yr eglwys fel ffordd o ddenu ei blwyfolion i'r gwasanaethau ar y Sul.

Cyfansoddodd y mwyafrif o'i gerddi ar fesur yr Hen Benillion, sy'n cynnwys pedair llinell ac odl syml aabb. Dyma oedd arddull farddoni seml gwerin y cyfnod, ac yr oedd nifer yn ddirmygus ohoni ac yn ei hystyried yn arddull gyffredin a di-urddas, yn enwedig o'i chymharu ag arddull beirdd yr uchelwyr a'u cynganeddu soffistigedig. Ond diben yr Hen Ficer wrth gyfansoddi ei benillion oedd addysgu'r werin, nid ennill coron mewn Eisteddfod. (Wedi dweud hynny, daeth y diweddar Barchedig Ganon Gwynn ap Gwilym yn ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Aberteifi yn 1996 am ei gerdd ar arddull yr Hen Benillion).



***Y Neuadd, Llanymddyfri***
***Cartref yr Hen Ficer***

Yn rhai o'i gerddi mae'r Hen Ficer yn cyfeirio at y Chwarren (haint y nodau – *bubonic plague*) a ymledodd yn Llundain yn 1625. Wrth ddarllen ei gerddi am y Chwarren hon, mae'n ddiddorol gweld mor debyg oedd profiad yr Hen Ficer i'n profiadau ni o fyw trwy Pandemig Covid 19. Yn fynych, yr ydym yn sôn am Covid 19 fel digwyddiad dihafal a digymar, ac mae hynny'n wir yn yr ystyr nad oes yr un ohonom wedi byw trwy gyfnod cyffelyb. Ond pan edrychwn yn ôl, fe welwn amryw blâu a heintiau yn britho hanes. Yn wir, nid oes yn rhaid i ni edrych yn ôl cyn belled â hynny i gofio'r gofid a berodd Ffliw y Moch ychydig dros ddegawd yn ôl, pan waharddwyd rhannu'r cwpan Cymun mewn rhai eglwysi am gyfnod. Diolch byth na ddatblygodd yr haint hwnnw, ac i'r mwyafrif ohonom ni effeithiodd ar ein bywydau beunyddiol.


Ychydig dros gan mlynedd yn ôl ymledodd y Ffliw Sbaeneg ar draws y byd, yn gyffelyb i Covid 19 heddiw a chyn 1750 yr oedd cyfnodau pan fyddai y Chwarren neu haint y nodau yn cydio ac ymledu ym Mhrydain yn weddol aml, yn enwedig yn Llundain. Mae'n ddiddorol nodi, yn y Litani yn y Llyfr Gweddi Gyffredin (1664) yr erfyniad "Oddi wrth fellt a thymestl; oddi wrth bla, haint y nodau, a newyn; oddi wrth ryfel, a llofruddiaeth, ac oddi wrth angau disyfyd: Gwared ni, Arglwydd daionus".

Mae'r Hen Ficer yn ei benillion ar y Chwarren yn dweud, "ni ddaeth plag erioed ei hunan". Mor wir yw hynny; pellgyrhaeddol yw sgil effeithiau pla. Wrth i ni ystyried y ffordd y mae Covid 19 wedi effeithio'n syfrdanol ar bob agwedd o'n bywydau ac ar gymdeithas ei hun; o addysg i'r gwasanaeth iechyd, o fyd y campau i'r economi, o wleidyddiaeth i'r ffordd mae'r cyfyngiadau cymdeithasol yn cael cymaint o effaith ar ein bywydau. Fel canlyniad i Covid 19, mae swyddi a chynhaliaeth nifer o bobl, yn anffodus, bellach yn y fantol, gyda llawer yn poeni am eu dyfodol.

Gweler mor debyg oedd y profiad yng nghyfnod yr Hen Ficer.

Mae'r marsiandwyr mawr a'i siopau
Llawn o frethyn aur, a laesau,
Heb gael werthu dim o'r llathaid,
I roi bara i'r prentisiaid.

Mae lletywyr y gwŷr mawrion,
A'r arglwyddi, a'r marchogion;
A'u hostriau mawr yn wag,
Heb neb ynddynt ond y plag.


CANWYLL Y CYMRY:
SEF,
GWAITH
Y PARCHEDIG
MR. REES PRICHARD, M. A.
GYNT FICER LLANYMDDYFRI.
THE
WELSHMAN'S CANDLE:
OR,
THE WORKS
OF THE REVEREND
MR. REES PRICHARD, M. A.
SOMETIME VICAR OF LANDOVERY.

DEUT. xxxi. 19, 21.
Yſgrifenwch yr awr hon gan hynny i chwi y gân hon; dyſg hi hefyd i feibion Iſrael; a goſod hi yn eu genau hwynt, fel y byddo'r gân hon yn dyſt i mi yn erbyn meibion Iſrael: canys nid anghofir hi o enau ei hâd ef.

CAERFYRDDIN:
Argraphwyd ac ar werth yno gan J. DANIEL, yn Heol y Farchnad Iſaf: Ar werth hefyd gan Mr. NORTH, yn Aberhonddu; Mr. JENKINS, yn Abertawe; a Meſſrs. MILNER a KAYE, Liferpwl.
1807.

Yn ffodus iawn i ni, nid oes prinder nwyddau angenrheidiol wedi bod yn y siopau trwy gyfnod y Cloi Mawr, er bod sebon, papur tŷ bach, blawd a burum yn brin ac yn anodd i'w cael ar y dechrau. Ond yng nghyfnod yr Hen Ficer, roedd haint yn amlach na pheidio yn arwain at brinder bwyd a newyn i nifer, fel y mae'n nodi yn y pennill canlynol:


Mae'r farchnadfa, lle'r oedd llafur,
Cig a physgod, tu hwnt i fesur;
A phob moethau o'r danteithia',
Heb na chig, na blawd, na bara

Hefyd, tra bod yr eglwysi ar gau ac yn wag trwy gyfnod y Cloi Mawr dylem gofio mai gwag oeddynt, yn ôl yr Hen Ficer, yn ystod y Chwarren hefyd. Yn y pennill isod efallai mai gorddweud oedd "lle'r oedd miloedd" wrth gyfeirio at y nifer oedd yn mynd i'r eglwys yn ei gyfnod. Ystyr y gair "lluest" yw "trigfan dros dro".

Mae'r offeiriaid a'r pregethwyr
Yn galaru maes o fesur
Weld eglwysydd, lle'r oedd miloedd,
Fel lluestau heb ddim pobloedd.

Roedd yr Hen Ficer trwy ei gerddi am y Chwarren yn annog ei ddarllenwyr i ystyried eu bywydau. Efallai ein bod ni oll yn gallu cytuno bod y Cloi Mawr, fel yr oedd y Chwarren i'r Hen Ficer, wedi rhoi'r cyfle i ni ystyried o ddifrif ein bywydau i weld beth sydd o wir bwys inni; beth sydd angen ei ddiwygio arnom; ein cyfeiriad wrth i ni deithio trwy fywyd, a hefyd y newidiadau yr hoffem eu gweld yn ein cymdeithas ar ôl i'r argyfwng yma ddod i ben. A ydym am i bopeth fynd yn ôl yn union fel ag yr oedd cyn y Cloi Mawr? Wrth i'r cyfyngiadau lacio'n araf deg, da fydd i ni fyfyrio ar bennill olaf ei gerdd am y Chwarren:

Duw fo grasol wrthyd Cymru
Duw rho ras it edifaru,
Duw'th achubo rhag y chwarren,
Duw ro iti flwyddyn lawen.


ORDERS,
THOVGHT MEET BY HIS MAIESTIE, AND his Priuie Councell, to be executed throughout the Counties of this Realme, in ſuch Townes, Villages, and other places, as are, or may be hereafter infected with the Plague, for the ſtay of further increaſe of the ſame.
Alſo,
An Aduice ſet downe by the beſt learned in Phyſicke within this Realme, containing ſundrie good Rules and eaſie Medicines, without charge to the meaner ſort of people, as well for the preſeruation of his good Subiects from the Plague before Infection, as for the curing and ordering of them after they ſhall be infected.
LONDON,
Printed by IOHN BILL, Printer to the Kings moſt Excellent Maieſtie. 1625.

# Cyfnod y Cloi — Gweithgareddau pobl EDS

## Dysgu sgiliau newydd



Torri gwallt warden y bobl!



Jig-so gorffenedig gan Rhys Jones



Dyfrlun hyfryd o Ddinbych y Pysgod gan Ieuan Jones

Cwis dwywaith yr wythnos ar gyfer y teulu Mears





Un wy bach ar ôl yn nyth robin goch gardd Judith Poulson


## Ail-gysylltu a natur



Ymwelydd â gardd John a Chris Livesey



Crychydd ar lwybr yr arfordir ger Lamby Way - *llun Delyth Davies*



Lliwiau'r gwanwyn ym Mharc Cefn Onn

## Dathlu penblwyddi




Falmai Griffiths






Cyfarchion trothwy'r drws i Susan Thomas


## Teithiau cerdded



Glannau'r afon Taf o fewn cyrraedd i gartref Beti Davies



Cyfeillion Shân Morgan ar ei theithiau rheolaidd â Pharc y Rhath yn ystod yr wythnosau cyntaf



Tiwlpiaid cynnar ger cartref Liz Harewood





Ymweliad â chyfeillion — o bellter diogel!

# Colofn y Ficer

Annwyl Gyfeillion,

Ysgrifennaf y llythyr hwn ar ganfed diwrnod y Cloi Mawr swyddogol. Gwn fod rhai ohonoch wedi bod yn hunan-ynysu yn hwy na hynny. Mae'n anodd credu bod dros dri mis wedi mynd heibio ers i ni gyfarfod gyda'n gilydd i addoli yn yr eglwys. Mae'r hiraeth yn fawr ac yr ydym i gyd wedi cael ein gorfodi i ddysgu bod yn amyneddgar, i fyw ein bywydau ac addoli mewn ffyrdd gwahanol iawn i'r arfer. Bellach, mae'r cyfyngiadau'n llacio yn araf deg, ac mae bywyd yn dechrau symud i ryw "normal newydd".

Yn gyntaf, hoffwn i ddiolch i chi am y gofal bugeiliol yr ydych wedi'i ddangos tuag at eich gilydd yn ystod y misoedd diwethaf, ac yn parhau i'w ddangos wrth gadw mewn cysylltiaid a'ch gilydd dros y ffôn neu zoom, trwy e-bost neu whatsapp. Gwn fod eich gofal amdanoch eich gilydd wedi bod yn werthfawr ac yn gefn mawr yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n dangos cryfder Eglwys Dewi Sant. Er ein bod yn eglwys ar wasgar, gyda'r rhan fwyaf ohonom yn byw ar draws y ddinas a thu hwnt, yr ydym wedi llwyddo i gadw'r ymdeimlad o fod yn perthyn i deulu ffydd yn fyw ac yn iach pan nad oes modd i ni gwrdd gyda'n gilydd fel eglwys.

Yn ail, hoffwn i ddiolch i chi am yr holl adborth cadarnhaol a'ch gwerthfawrogiad o'r adnoddau addoli sy'n dod allan o Sul i Sul. Hoffwn i ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan trwy recordio darlleniadau ar gyfer y podlediadau, ac yn arbennig i Ieuan am ei waith o osod yr holl ddeunydd at ei gilydd, gan gynnwys canu'r emynau a chyflwyno'r podlediadau yn chwaethus a phroffesiynol. Hefyd mae'r daflen wythnosol wedi bod yn fuddiol i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i'r we. Hoffwn i ddiolch i Marian am ei chymorth gyda'r daflen ac i Rhys am anfon yr adnoddau addoli allan trwy e-bost bob




**Dyfrig yn ymddangos ar S4C ar y Sulgwyn**

wythnos. Mae'r adnoddau addoli ar y Sul yn rhoi cyfle i bob un ohonom, addoli gyda'n gilydd, er yn rhithiol. Dros y cyfnod hwn mae'r diwrnodau'n dueddol o lithro i mewn i'w gilydd ac y mae'r adnoddau addoli wedi bod yn fendith sydd yn rhoi strwythur i'r wythnos ac yn cadw'r Sul yn ddydd yr Arglwydd.

Yr hyn sydd wedi bod yn arbennig o fuddiol am ein gwasanaethau rhithiol yw'r ffordd y maent wedi galluogi'n plwyfolion i gyd i fod yn rhan o gynulleidfa'r Sul unwaith eto. Er ein bod yn addoli'n rhithiol, pob un ar ei aelwyd ei hun, mae'n golygu ein bod yn eglwys fwy cyflawn a mwy cynhwysfawr lle mae holl deulu'r eglwys gyda'i gilydd yn gallu rhannu yn yr un weithred o addoli, ac mae hynny'n werthfawr iawn. Hefyd, mae'n dda cael dweud bod y podlediadau yn rhoi cyfle i bobl o rannau eraill o Gymru a thros y ffin, a chyn belled â'r Weriniaeth Siec, Tsieina ac Awstralia ymuno â ni'n gyson ar y Sul. Bydd yn rhaid i ni ystyried o ddifrif sut y gallwn, rhywsut neu'i gilydd, gadw ein presenoldeb ar y rhyngrwyd wrth i ni baratoi i ddychwelyd yn ôl i adeilad yr eglwys i addoli ar y Sul.

Ond beth am ddychwelyd i'r eglwys a dechrau cynnal ein gwasanaethau eto? Dros y misoedd

***(Parhad ar Dud 6)***



**Aelodau'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yn cwrdd ar Zoom am eu cyfarfod ym mis Mehefin. Diflanodd ambell un oherwydd namau technegol!**

# Colofn y Ficer

diwethaf, daeth yn amlwg na fyddai modd pennu un Sul arbennig a chynnal un gwasanaeth mawr pan fyddai pawb yn dychwelyd i'r eglwys gyda'i gilydd. Yn araf y byddwn yn dychwelyd, pan fyddwn yn teimlo ei bod yn ddiogel ac yn briodol inni wneud hynny.

Mae'r Eglwys yng Nghymru fel rhan o'r Fforwm Ffydd yn gweithio'n agos iawn â Llywodraeth Cymru ac yn dilyn ei system goleuadau traffig – Coch, Oren a Gwyrdd. Yr ydym eisoes wedi symud o'r Cloi Mawr i'r lliw Coch, sy'n golygu bod gan yr eglwys yr hawl i agor ar gyfer gweddi bersonol gan ddilyn canllawiau manwl yr Eglwys yng Nghymru a chadw rheolau ymbellhau cymdeithasol. Nid oes disgwyl i unrhyw eglwys agor yn ystod y cyfnod hwn, ac y mae'r CPE yn ystyried a oes angen i EDS agor neu beidio ar hyn o bryd.



Y cam nesaf fydd y lliw Oren. Bydd hyn yn golygu bod hawl gennym i gynnal gwasanaethau unwaith eto, ond bydd cyfyngiadau ar y nifer o bobl fydd yn gallu bod yn bresennol ym mhob gwasanaeth. Bydd angen dilyn y canllawiau a osodir gan yr Eglwys yng Nghymru a sicrhau bod y pellter o ddau fedr rhwng bob person yn cael ei gadw. Ni fydd modd canu emynau na defnyddio Llyfrau Gweddi ac mae'n annhebygol y bydd gennym hawl i weinyddu'r Cymun yn ystod y cyfnod hwn. Bydd modd hefyd cynnal angladdau a phriodasau yn yr eglwys, ond bydd y nifer a fydd yn cael mynychu'r gwasanaethau hyn yn fach iawn a bydd angen llenwi asesiad risg manwl a chael caniatâd yr Archddiacon cyn cynnal pob gwasanaeth.

Y trydydd cam fydd y lliw Gwyrdd. Bydd hwn yn golygu bod modd inni gynnal ein holl wasanaethau tra'n cadw y rheol dau fedr. Mwy na thebyg, hyd yn oed gyda'r lliw gwyrdd, bydd cyfyngiadau ar y nifer a all ddod i bob gwasanaeth. Mae'n annhebygol y byddwn yn cael canu a chynnal gweithgareddau cymdeithasol megis darparu paned ar ôl y gwasanaeth, heb sôn am weithgareddau cymdeithasol eraill yn ystod y cyfnod hwn.

Fel y gwelwch chi, yn araf deg y bydd bywyd yr Eglwys yn ailgydio, ac mae'n rhaid i ni baratoi ein hunain ar gyfer gwasanaethau a fydd â naws a theimlad gwahanol iawn iddynt o'u cymharu â'r gwasanaethau cyn y Cloi Mawr.

Oherwydd natur Covid 19, nid oes modd i unrhyw eglwys sicrhau ei bod yn gwbl ddiogel rhag yr haint. Yr unig beth a allwn ni ei wneud yw dilyn yn ofalus y canllawiau a osodir a lleihau y risg cymaint â phosib, ond ni allwn ddileu y risg yn gyfan gwbl. Gyda hyn mewn golwg, bydd yn rhaid i bob un ohonom bwyso a mesur yn ofalus y risg i'w iechyd ei hun, a gofyn 'a ydyw'n addas neu beidio imi ddod i wasanaeth yn yr eglwys?' Hoffwn i danlinellu a thanlinellu drachefn: ni ddylai unrhyw un ar unrhyw adeg deimlo naill ai o deyrngarwch i'r eglwys neu i mi, bod yn rhaid iddo/iddi ddod i wasanaeth, na chwaith deimlo'n euog am benderfynu aros adre. Cofiwch mai eich iechyd sydd yn dod yn gyntaf a hyd nes cawn y cadarnhad fod y risg o ddal Covid 19 wedi mynd heibio, gwnaf fy ngorau i ddarparu adnoddau i addoli ar yr aelwyd. Cofiwch, er ein bod i gyd ar wahân nid ydym yn llai o eglwys, ac er na allwn ddod i'r eglwys, yr ydym yn dal i fod yn rhan o'r eglwys.

Y gwir yw, a dydw i ddim am guddio'r ffaith, y mae dod allan o'r Cloi Mawr i ni fel eglwys yn mynd i fod yn arafach ac yn anos na mynd i mewn iddo. Wrth ailgychwyn ar y gwaith o agor Eglwys Dewi Sant yr arwyddair yw 'pwyll piau hi', bod yn amyneddgar a chymryd pob cam yn ofalus. Daliwn afael yn ein hiraeth a'n gobaith o gael cyd-addoli, cyd-gyfranogi o'r Cymun Bendigaid a chyfarfod unwaith eto yn yr Eglwys, pan fydd hi'n ddiogel i ni wneud hynny. Daliwn afael yn ein ffydd, a disgwyliwn yn eiddgar ac yn amyneddgar. Yng ngeiriau William Williams, Pant-y-Celyn:

Disgwyl 'rwyf ar hyd yr hirnos
Disgwyl am y bore-ddydd,
Disgwyl clywed pyrth yn agor
A chadwynau'n mynd yn rhydd;
Disgwyl golau
Yn nhywyllwch tewa'r nos.

Diolch am eich gweddïau a'ch cefnogaeth barhaus.

Gyda phob bendith,

Dyfrig.

## Geiriau o ddiolch — Margaret Le Grice

**"Calonogwch eich gilydd, ac adeiladwch bob un ei gilydd - fel, yn wir, yr ydych yn gwneud." (1 Thes 5:11)**

**Mae'r cyfnod clo yn amser unig i lawer o bobl, ond beth yw'r ateb?**

**Bod yn aelod o deulu Eglwys Dewi Sant!**

**Fel rhywun sy'n byw ar ei phen ei hun, mae'r calondid sy'n dod o EDS wedi bod yn help mawr i fi. Felly .....**

**DIOLCH!**

**i Dyfrig, am ei ofal bugeiliol, am wasanaethau gwych, sy'n cynnwys pregethau a gweddïau sy'n berthnasol i'r amserau anodd hyn**

**i Ieuan, am ei sgiliau technegol a cherddorol**

**i bawb sy'n canu ac yn darllen ar y podleidiau**

**i Rhys, sy'n anfon popeth allan atom ni**

**Wrth wrando ar y podleidiau, rydw i'n gallu addoli ar y aelwyd yn wir.**

**i Ann, am sefydlu grŵp whatsapp**

**i bawb sy'n cymryd rhan yn y grŵp gan gyfrannu cartŵns a jôcs; lluniau o bopeth o gacennau i adar; posau; cyfarchion penblwydd; negeseuon cefnogol, ysbrydol a diwylliannol. Ar 15 Ebrill, roedd trafodaeth am enwau tafodieithol am bryfed, a oedd yn ddiddorol iawn i ddysgwraig sydd â diddordeb yn y byd natur! Fy hoff eiriau oedd "cachgi bwm" a "piffgi"!**

**i bawb sy'n fodlon i sgwrsio ar y ffôn**

**i'r rhai sy'n mynychu "Coffi a Chlonc" ar Zoom, ac i Siân, am ei drefnu.**

**Diolch o galon am yr holl anogaeth. Rydw i'n edrych ymlaen at Ewcharist dathliadol a pharti mawr pan fydd popeth drosodd!**

## MATERION ARIANNOL

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ymateb i'r alwad am gyfrannu'n ariannol i'r eglwys yn ystod cyfnod y gwaharddiad ac yn arbennig am eich haelioni.

Er nad oes gwasanaethau yn yr eglwys ac er bod ein costau wedi gostwng rhywfaint, mae costau angenrheidiol gennym sydd angen i ni eu talu megis y cyfran plwyf, yswiriant, nwy a thrydan yn ogystal â chostau eraill yn fisol. Yr ydym yn dibynnu ar gyfraniadau o'r cynllun Gwadd ac yn arferol cyfraniadau a roddir ar y plât casgliad o Sul i Sul i gwrdd â'r costau hyn. Rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n cyfrannu trwy Gwadd yn fisol.

Os hoffai unrhyw un a fyddai fel arfer yn rhoi arian ar y plât casgliad gyfrannu yn ystod y cyfnod hwn, neu os hoffai unrhyw un ystyried ychwanegu at eu cyfraniad trwy Gwadd a wnewch chi gysylltu â'r trysorydd, Rhys Jones i drafod y gwahanol opsiynau sydd ar gael.


Os nad ydych wedi cael cyfle, ac os hoffech chi wneud cyfraniad, a wnewch chi gysylltu â'r trysorydd i drafod y gwahanol opsiynau.

Rhys Jones

Ffôn: 029 2056 3834

Symudol: 07794897328

E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com


Mae'r toiled hwn wedi'i

**Efeillio**

Eglwys Dewi Sant Church, Caerdydd/Cardiff

â'r toiled sydd yn


Lledred: -2.936518 Hydred: 25.893482
Kindu, Maniema, Democratic Republic of Congo
Toiled rhif.36016

toilet twinning.org

Mae 2.4 biliwn o bobl yn byw heb dŷ bach. Wrth gefnogi Tearfund, rydych chi'n helpu i ddileu tlodi.
Mae Tearfund yn Elusen Gofrestredig, rhif: 265464 (Cymru a Lloegr) a rhif: SC037624 (yr Alban).
www.toilettwinning.org

F/105706

**Tystysgrifau a dderbyniwyd i gydnabod cefnogaeth Eglwys Dewi Sant tuag at brosiect tai bach Tearfund.**


Mae'r toiled hwn wed'i

**Efeillio**

Eglwys Dewi Sant Church, Caerdydd/Cardiff

gyda thai bach ysgol yn

Lledred: -10.81063 Hydred: 33.52246
Katowo, Rhumphi District, Malawi
Toiled rhif. 90435

toilet twinning.org

Mae 2.4 biliwn o bobl yn byw heb dŷ bach. Wrth gefnogi Tearfund, rydych chi'n helpu i ddileu tlodi.
Mae Tearfund yn Elusen Gofrestredig, rhif: 265464 (Cymru a Lloegr) a rhif: SC037624 (yr Alban).
www.toilettwinning.org

F/

**Gwahoddir deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Medi 25ain 2020**

**Cysylltwch â'r Golygydd - wyn@wynmears.com**



Ordeiniwyd Siôn Brynach yn ddiacon gan yr Esgob June ar ddydd Sadwrn Mehefin 27ain. Bydd Siôn yn ymuno â thim eglwys Christchurch ger Llyn y Rhath, a dymunwn bob bendith iddo wrth iddo ddilyn ei alwedigaeth.

---

**Statws Arbennig i'r Organ** **Marian Fairclough**

Efallai eich bod yn cofio i mi sôn ar ddiwedd y darn a ymddangosodd yn rhifyn Rhagfyr bod Alan Thurlow, Cadeirydd BIOS (British Institute of Organ Studies), wedi argymell yn ei neges o gymeradwyaeth yn dilyn y datganiad organ a gynhaliwyd yn Eglwys Dewi Sant ar ddechrau *Organfest* 19 ar 6 Medi 2019 y dylem fel eglwys wneud cais am dystysgrif organ hanesyddol gan BIOS. '*I thought that the recital by Gerard Brooks was outstanding, the sound of the organ thrilling*' meddai.

Mae'r BIOS yn annog ac yn hyrwyddo astudiaeth o'r organ, ei hanes ei gwneuthuriad a'i cherddoriaeth. Dyma'r corff sy'n rhestru organau hanesyddol ac sydd hefyd yn berchen y *National Pipe Organ Register*.

Penderfynwyd mai da o beth fuasai gweithredu ar argymhelliad Cadeirydd BIOS ac fe aed ati ym mis Tachwedd i lunio cais am dystysgrif organ hanesyddol i organ EDS. Nid oedd modd i bwyllgor BIOS ystyried ein cais yn ei gyfarfod ym mis Ionawr ac felly bu raid aros am y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin i gael barn yr arbenigwyr. Roeddwn yn meddwl tybed a fuasai hyn yn digwydd yn ystod argyfwng Covid 19 ond newyddion da a ddaeth i'n bro fore Llun 22 Mehefin.

Derbyniwyd neges e-bost calonogol iawn gan weinyddwr y cynllun yn ein hysbysu o lwyddiant ein cais. Roedd organ EDS wedi ennill **Gradd II* ac yn dilyn derbyn cymeradwyaeth cyngor y BIOS byddem yn derbyn ein tystysgrif maes o law. Dyfernir Gradd II* i '...*particularly important organs of more than special interest*'.**

Mae hyn oll yn cadarnhau arwyddocâd hanesyddol organ EDS, yn codi ei phroffil ac yn mynd gam ymhellach tuag at sicrhau dyfodol diogel a llewyrchus iddi. Bydd ar y rhestr o organau hanesyddol sydd ar gael i bawb sy'n ymddiddori yn y maes hwn. Edrychwn ymlaen at groesawu organyddion a gwrandawyr brwdfrydig sy'n ymhyfrydu mewn offerynnau nodedig a hanesyddol. Yn y cyfamser, gobeithio y daw'r argyfwng presennol i ben yn fuan ac y cawn ei chlywed unwaith eto.

## Arglwydd dysg i'n weddïo

**Salm ar gyfer ein hamser – (Seiliedig ar Salm 23)**

**Mae gras Duw yn ein harwain ni,
nid oes, ac ni bydd eisiau arnom.
Mae'n tywys ni i fannau o orffwys a gofal
ac i yfed dyfroedd hyder.
Mae'n hadnewyddu ein nerth
fel na chrwydrwn oddi ar lwybrau solidariaeth â'r holl ddynoliaeth
oherwydd ar y llwybr hwn, yn ein tosturi tuag at eraill
yr anrhydeddir ei enw.**

**Ie, pe rhodiwn ar hyd strydoedd llygredig
a llefydd o bosib haint,
nid ofnwn unrhyw niwed,
canys yr wyt ti, presenoldeb dwyfol,
yn cadw pellter call rhwng tynerwch a pharch,
ac sy'n ein hysbrydoli ni â serenedd a hyder.**

**Cyfranogwn eto wrth y ford, ac yn y wledd a'r parti,
o flaen gwg syn ymerodraeth y feirws
a phob ymerodraeth sy'n bwriadu marwolaeth a gwahanrwydd.
Llenwn ein cwpanau unwaith eto hyd yr ymyl
a chynhigiwn lwncdestun i fydoedd newydd,
wedi'u dinoethi o'u trachwant a'u hawydd am rym
ac yn fwy ymwybodol o fod yn deulu, pobl, dynoliaeth.**

**Yn sicr, bydd dy ddaioni a'th drugaredd
yn ein canlyn ni bob awr o'n taith
nes i ni ddysgu sut i wneud y byd hwn yn
gartref inni oll,
yn ein hamrywiaeth llawn a chyfoethog,
gydag iechyd, cyflawnder, urddas,
bara, lloches, gwaith a chyfiawnder,
am byth.**

*Y Parchedig Gerardo Oberman, Red Crearte, Argentina
Cyngor Eglwysi'r Byd.*

**Cofiwch gadw mewn cysylltiad – cysylltwch â rhywun nad ydych wedi cysylltu â nhw eto.**

**Ymunwch â theulu What's App**

**Eglwys Dewi Sant**

**am sgwrs, diddanwch a'r newyddion diweddara am ein plwyfolion—cysylltwch â**

**Ann Mears 07977 530838 er mwyn ymuno â'r criw**